# Strategaeth Cymorth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin 2018-23

*“Sut rydym yn cefnogi teuluoedd yn Sir Gaerfyrddin”*

GWANWYN 2018



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad, Pwrpas a Nodau | **3** |
| Egwyddorion Arweiniol | **4** |
| Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd: Sut rydym yn cefnogi teuluoedd yn Sir Gaerfyrddin | **13** |
| Cyflawni ar gyfer Teuluoedd: Sut fyddwn yn cyrraedd ein nodau | **22** |
| Arweinyddiaeth, Llywodraethu ac Atebolrwydd | **24** |

# Rhagair

**Mae llawer i'w ddathlu am fywyd teuluol yn Sir Gaerfyrddin. Ymha ffurf bynnag y maent, teuluoedd yw ased mwyaf gwerthfawr Sir Gaerfyrddin a nhw yw'r ffactor unigol pwysicaf wrth ofalu fod plant a phobl ifanc yn hapus, iachus a diogel a'u bod yn cael eu cefnogi i wireddu eu llawn botensial.**

Ein gweledigaeth ar gyfer cefnogi teuluoedd yw cefnogaeth gynharach a theuluoedd cryfach. Os na all teulu ymdopi ar eu pen eu hunain, mae gennym ddyletswydd i helpu. Mae angen inni ymyrryd a chynnig cefnogaeth i deuluoedd cyn gynted ag y bo modd. Heb y gefnogaeth hon gwyddom y gall problemau waethygu a mynd yn llawer anoddach eu datrys yn ddiweddarach.

Mae llawer o waith yn cael ei wneud yn barod i gefnogi teuluoedd.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar waith atal ac ymyriadau cynharach, mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol yn hytrach na symptomau yn unig. Byddwn yn gweithio gyda'r teuluoedd eu hunain a'u cefnogi wrth iddynt gymryd cyfrifoldeb am eu sefyllfa eu hunain, nid meithrin mwy a mwy o ddibyniaeth.

Mae'r adnoddau ariannol sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau yn debygol o leihau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Ar yr un pryd mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan deuluoedd yn cynyddu. Lluniwyd y strategaeth o fewn y cyd-destun hwnnw ac mae'n gosod y cyfeiriad strategol yr hoffem deithio ar ei hyd. Gobeithiwn y bydd yn ein helpu i wella a chynnal gwasanaethau yn y blynyddoedd i ddod.



**Y Cyng. Glynog Davies**
*Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant*

# 1 Cyflwyniad

## Pwrpas

Mae Strategaeth Cefnogi Teuluoedd Sir Gaerfyrddin yn amlinellu sut fyddwn yn darparu a datblygu ymyriadau cynnar a gwasanaethau i gefnogi plant, teuluoedd a phobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin. Gwnawn hyn trwy ddarparu cymorth cyn gynted ag y daw problem yn amlwg, ar unrhyw adeg ym mywyd plentyn, o'r blynyddoedd cynnar ac ymlaen i'r arddegau.

Mae'n disgrifio sut fyddwn yn datblygu dulliau cydlynol o gefnogi teuluoedd ar draws ystod o anghenion.

## Ein Nodau

Rydym eisiau cynnig gwasanaethau o ansawdd uchel, uchel eu gwerth a hawdd eu defnyddio sy'n targedu'r bobl sydd fwyaf eu hangen.

**Rydym eisiau Sir Gaerfyrddin lle:**

- Y mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn derbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, pan mae eu hangen a lle y gallant gael gafael arnynt yn y ffordd fwyaf hwylus
- Y mae darparwyr gwasanaethau (ysgolion, gwasanaethau ieuenctid ac ati) yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod teuluoedd yn derbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, pan mae nhw fwyaf eu hangen.
- Y mae comisiynwyr yn cydweithio ar draws gwasanaethau ac ar draws sectorau i sicrhau gwerth gorau am arian.

**Ein nod yw darparu Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd i deuluoedd, pobl ifanc a phlant sydd yn:**

- **Ymyrryd yn gynnar i atal problemau rhag gwaethygu**
  Darparu cymorth cynnar, cefnogaeth wedi'i thargedu i deuluoedd a gwasanaethau arbenigol i adeiladu cydnerthedd mewn teuluoedd a phlant, dadwneud effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn yr hirdymor – lleihau'r galw am wasanaethau arbenigol.
- **Integredig** – gweithio ar y cyd i ddarparu'r cymorth iawn ar yr adeg iawn mewn ffordd effeithiol
- **Rhoi teuluoedd yn gyntaf: wedi'u personoleiddio, yn seiliedig ar gryfder ac yn anelu am atebion**
  Rhoi sylw i heriau trwy weithio gyda chryfderau teulu a gweithio mewn partneriaeth gyda'r teulu cyfan i ddod o hyd i atebion a darparu cefnogaeth sydd wedi'i phersonoleiddio i'w hanghenion penodol nhw.
- **Hygyrch a chynhwysol**
  Hawdd cael gafael arnynt a'u defnyddio fel y gall teuluoedd gael cefnogaeth lle bynnag y mae eu pwynt cyswllt cyntaf.
- **Galluogi teuluoedd i feithrin eu cydnerthedd yn hytrach na hyrwyddo dibyniaeth**
  Helpu teuluoedd i helpu eu hunain i wella eu sefyllfaoedd yn hytrach na chreu dibyniaeth.



# 2 Egwyddorion Arweiniol

Sylfaen ein dull o weithio yw ymrwymiad i hawliau plant.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu **Confensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)** yn sail i'w gwaith gyda phlant a phobl ifanc. Mynegir hynny yn saith nod craidd Llywodraeth Cymru, sef y y dylai pob plentyn a pherson ifanc:

- Gael Dechrau Da i'w bywydau.
- Gael dewis helaeth o gyfleoedd addysg a dysgu.
- Fwynhau'r iechyd gorau posib a pheidio cael eu camdrin, eu herlid a'u hecsbloetio.
- Allu mwynhau gweithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol gwahanol.
- Gael gwrandawiad, eu trin â pharch a chael cydnabyddiaeth i'w hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol.
- Gael cartref a chymuned ddiogel sy'n cefnogi llesiant corfforol ac emosiynol.
- Beidio cael eu rhoi dan anfantais gan dlodi.

Mae canllawiau ar sut rydym yn cefnogi plant a theuluoedd yn cael eu gosod yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru (LlC). Mae Deddfau a pholisïau allweddol yn ein cyfarwyddo:

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**
- **Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant 2014**
- **Strategaeth Tlodi Plant 2015**
- **Symud Cymru Ymlaen 2016 – 2021**


Rydym hefyd yn dilyn blaenoriaethau a fframweithiau LlC yn ogystal â strategaethau lleol gan gynnwys:

- **Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod – Iechyd Cyhoeddus Cymru**
- **Ar Drywydd Hawliau: Dull o Weithredu Hawliau Plant**
- **Plant yn Gyntaf**
- **Strategaeth Gorfforaethol Sir Gaerfyrddin 2018-23**

*"Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu Confensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn sail i'w gwaith gyda phlant a phobl ifanc"*



## Deddfau a Pholisïau Allweddol Llywodraeth Cymru a Strategaethau a Fframweithiau Lleol







## 2.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** yn amlinellu **saith nod llesiant cyfreithiol ofynnol** a gynlluniwyd i gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion heddiw, heb effeithio'n andwyol ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Y nodau yw Cymru ffyniannus; gydnerth; iachach a mwy cyfartal; a Chymru gyfrifol yn fydeang; gyda chymunedau cydlynol; diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu.

Mae **pum ffordd allweddol o weithio** y mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus eu harddangos i'n helpu i weithio'n well gyda'n gilydd, osgoi ail-adrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor rydym yn eu hwynebu.






### Hirdymor

Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.



### Atal

Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.



### Integreiddio

Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.



### Cydweithio

Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.



### Cynnwys

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

Y Ddeddf yw conglfaen y dyheadau a'r amcanion sydd gennym ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Public Services Board

Sefydlodd hefyd fwrdd statudol, a elwir yn **Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)**, ymhob awdurdod lleol fydd yn cyflwyno gweledigaeth a rennir i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal.

Sefydlwyd BGC Sir Gaerfyrddin ym mis Mai 2016 gyda'r bwriad o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Gaerfyrddin.

Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid iddo gynnal asesiad o lesiant yn y Sir a pharatoi Cynllun Llesiant i amlinellu ei amcanion, y camau fydd yn eu cymryd i'w cyflawni a sut maen nhw'n cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol.

**Mae gan BGC Sir Gaerfyrddin bedwar aelod statudol:**

- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Chyfoeth Naturiol Cymru.

**Y partneriaid eraill yw:**

- Coleg Sir Gâr,
- Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant,
- Heddlu Dyfed-Powys, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
- yr Adran Gwaith a Phensiynau,
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin,
- Llywodraeth Cymru,
- y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol,
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Cyhoeddwyd **Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin** ym mis Mawrth 2017.

Mae canfyddiadau'r asesiad hwn yn gosod sylfaen ar gyfer yr amcanion a'r gweithredoedd a amlinellwyd yng Nghynllun Llesiant cyntaf Sir Gaerfyrddin **Y Sir Gaerfyrddin a Garem 2018-2023**.

**Bydd Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin yn canolbwyntio ar gyflawni pedwar amcan:**

**Arferion Iach** - Bod gan bobl ansawdd bywyd da, a'u bod yn gwneud dewisiadau iachus am eu bywydau a'u hamgylchedd.

**Ymyrraeth Gynnar** - Bod pobl yn cael yr help priodol ar yr amser iawn; yn ôl y gofyn.

**Cysylltiadau Cadarn** - Pobl, llefydd a sefydliadau sydd wedi'u cysylltu'n gadarn, sy'n gallu addasu i newid.

**Pobl a Llefydd Llewyrchus** - Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i bobl a llefydd yn rhan-nau trefol a gwledig ein sir.

**Sefydlwyd pedwar grŵp cyflawni i roi sylw i feysydd allweddol er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Llesiant y BGC. Y grwpiau yw'r Grŵp Cyflawni Amgylchedd Iachus, y Grŵp Cyflawni Ymyriadau Cynnar, y Grŵp Cyflawni Cysylltiadau Cryfion a'r Grŵp Cyflawni Pobl a Lleoedd Ffyniannus.**



## 2.2 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant** yn ddeddf ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth.

Egwyddorion y Ddeddf yw ei bod yn:

- Cefnogi pobl a chanddynt anghenion gofal a chefnogaeth er mwyn sicrhau llesiant.
- Mae pobl yn ganolog i'r system newydd trwy roi llais cyfartal iddynt yn y gefnogaeth a dderbyniant.
- Mae partneriaeth a chydweithio yn gyrru'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.
- Bydd gwasanaethau yn hyrwyddo'r nod o atal anghenion rhag dwysáu a sicrhau bod y cymorth iawn ar gael ar yr adeg iawn.

Mae'r Ddeddf yn mynnu fod awdurdodau lleol yn sefydlu **Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh)** i sicrhau bod gofynion statudol y Ddeddf yn cael eu bodloni a bod iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio'n dda er budd y sawl sydd eu hangen, a'u gofalwyr.

wwcp
Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Benfro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a chynrychiolwyr y trydydd sector a'r sector annibynnol yn ffurfio **Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru**.

Rhaid i bob Partneriaeth gynnal Asesiad Poblogaeth i asesu anghenion, effeithiolrwydd y gwasanaethau presennol a lle y mae angen rhagor o newidiadau a gwelliannau. Yn 2017 cyhoeddwyd **Asesiad Poblogaeth Gorllewin Cymru** am y tro cyntaf.

Dilynwyd hynny gan **Gynllun Ardal Gorllewin Cymru ar gyfer 2018-23** **'Cyflawni Newid gyda'n Gilydd'** sy'n amlinellu sut fyddwn yn gweithio yn bartneriaeth dros y bum mlynedd nesaf i drawsnewid ac integreiddio gofal a chefnogaeth a mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr Asesiad Poblogaeth.

## 2.3 Symud Cymru Ymlaen 2016-2021

**Symud Cymru Ymlaen** yw Rhaglen LlC ar gyfer Llywodraethu. Mae'n amlinellu'r ymrwymiadau y bydd LlC yn eu cyflawni dros y 5 mlynedd nesaf i adeiladu Cymru sy'n iach a gweithgar, ffyniannus a diogel, uchelgeisiol ac yn dysgu, ac yn unedig a chysylltiedig.

Mae **Ffyniant i Bawb** yn strategaeth sy'n cymryd yr ymrwymiadau hynny ac yn amlinellu sut fyddant yn cael eu cyflawni gan y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r strategaeth yn amlygu meysydd blaenoriaeth gan gynnwys y Blynyddoedd Cynnar a phwysigrwydd creu amodau sy'n rhoi'r dechrau gorau i fywyd i bob plentyn. Adlewyrchir dyheadau'r strategaeth hon yng Nghynllun Sir Gaerfyrddin – Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin.

## 2.4 Trechu Tlodi: Strategaeth Tlodi Plant i Gymru

Mae Strategaeth Tlodi Plant 2015 yn cynnwys pump amcan allweddol ar gyfer trechu tlodi plant a gwella'r deilliannau i deuluoedd incwm isel yng Nghymru i sicrhau nad oes yr un plentyn yn byw mewn tlodi erbyn 2020.

**Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru 2015**
Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi nodi Trechu ac Atal Tlodi yn un o'i Amcanion Llesiant Allweddol.

Mae Amcan Llesiant Pump yn dweud: "Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi" yn seiliedig ar dri phrif maes blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi ac mae'n cynnwys cynllun gweithredu manwl sy'n amlinellu sut fyddwn yn cyflawni ein hamcan ar gyfer plant, teuluoedd a chymunedau.

Caiff y cynllun gweithredu ei oruchwylio gan y Panel Ymgynghorol ar Drechu Tlodi, sy'n cynnwys Cynghorwyr sy'n cynnig cyngor a chymorth i'r Cynghorydd Cefin Campbell, sef yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Drechu Tlodi.



## 2.5 Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod:

Mae atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac ymyriadau cynnar i gefnogi teuluoedd yn ganolog i'n gwaith o gefnogi teuluoedd yn Sir Gaerfyrddin.

Mae profiadau plentyndod, yn gadarnhaol a negyddol, yn cael effaith enfawr ar iechyd a chyfleoedd i'r dyfodol a gydol oes.

Defnyddir y term **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod** i ddisgrifio ystod o brofiadau straenus neu drawmatig y gall plant eu cael wrth dyfu i fyny.

Mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn amrywio o brofiadau sy'n gwneud drwg uniongyrchol i blentyn, megis camdriniaeth gorfforol, eiriol neu rywiol ac esgeulustod emosiynol i'r rhai sy'n effeithio'r amgylchedd y mae plentyn yn tyfu i fyny ynddo, gan gynnwys cael eu magu ar aelwyd lle y ceir trais domestig, camdrin alcohol, rhieni'n gwahanu neu gamdrin cyffuriau.

Mae gan blant a phobl ifanc sy'n cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod lefelau cyson uwch o straen. Gall hyn gael effaith negyddol ar iechyd meddyliol a chorfforol gydol oes trwy darfu ar ddatblygiad yr ymennydd ac organau a thrwy niweidio system y corff ar gyfer gwarchod rhag clefydau.

Po fwyaf o Brofiadau Niweidiol yn ystod Pletyndod y mae plentyn yn eu cael, po uchaf yw'r tebygolrwydd o ddioddef problemau iechyd a/neu gymdeithasol yn ddiweddarach yn eu bywydau.

Datgelodd canlyniadau o'r astudiaeth gyntaf o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yng Nghymru gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fod tuag un oedolyn o bob saith rhwng 18-69 oed yng Nghymru wedi profi pedwar Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod neu ragor yn ystod eu plentyndod ac roedd ychydig o dan hanner wedi profi o leiaf un.

**Gallai atal ACE i genedlaethau'r dyfodol leihsu lefelau:**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Defnyddio heroin/crack cocaine (trwy gydol bywyd) o 66% | Carcharu (trwy gydol bywyd) o 65% | Cyflawni trais (y flwyddyn ddiwethaf) o 60% | Dioddef trais (y flwyddyn ddiwethaf) o 57% | Defnydd o gannabis (trwy gydol bywyd) o 42% |
| Beichiogi nas bwrladwyd yn yr arddegau o 41% | Yfed risg uchel (presennol) o 35% | Rhyw yn gynnar (cyn 16 oed) o 31% | Smygu tybaco neu e-sigaréts (presennol) o 24% | Deiet gwael (presennol; <2 ddarn o ffrwythau a lysiau y dydd daily) o 16% |

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

### Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACE) yng Nghymru

**Mae ACE yn brofiadau ingol sy'n digwydd yn ystod plentyndod sy'n niweidio plentyn yn uniongyrchol (e.e. rhywiol neu gam-drin corfforol) neu'n effeithio ar yr amgylchedd lle maent yn byw (e.e. cael eu magu mewn tŷ lle mae trais domestig.**

**Faint o oedolion yng Nghymru sydd wedi cael cyswllt â phob ACE?**

**CAMDRINIAETH PLANT**

| Cam-drin llafar | Cam-drin corfforol | Cam-drin rhywiol |
|---|---|---|
| 23% | 17% | 10% |

**AELWYD PLENTYNDOD WEDI CYNNWYS**

| Rhieni'n gwahanu | Trais domestig | Salwch meddwl | Cam-drin alcohol | Defnyddio cyffuriau | Carcharu |
|---|---|---|---|---|---|
| 20% | 16% | 14% | 14% | 5% | 5% |

**Am bob 100 0 oedolion yng Nghymru, 47 wedi dioddef un ACE o leiaf yn ystod eu plentyndod ac mae 14 wedi dioddef 4 neu fwy.**

| | |
|---|---|
| 0 ACEs | 53% |
| 1 ACE | 20% |
| 2-3 ACEs | 13% |
| 4+ ACEs | 14% |

Mae'r ffigurau'n seiliedig ar fynychder wedi ei addasu yn ôl poblogaeth ymysg oedolion 18-69 oed yng Nghymru.

## 2.6 Ar Drywydd Hawliau: Dull o Weithredu Hawliau Plant

Mae **Dull o Weithredu Hawliau Plant** yn fframwaith ar gyfer gweithio gyda phlant, a ymgorfforwyd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, i helpu cyrff cyhoeddus i integreiddio hawliau plant ymhob agwedd ar wneud penderfyniadau, polisi ac arfer.

Egwyddorion Dull o Weithredu Hawliau Plant yw:

- **Gwreiddio hawliau plant** - bydd sefydliadau yn blaenoriaethu hawliau plant yn eu gwaith gyda phlant a theuluoedd i wella bywydau plant;
- **Cydraddoldeb a pheidio gwahaniaethu** - mae pob plentyn yn cael cyfleoedd i wneud y gorau o'u doniau a'u potensial;
- **Ymrymuso plant** - mae pob plentyn yn cael mynediad at wybodaeth ac adnoddau i'w galluogi i fanteisio'n llawn ar eu hawliau;
- **Cyfranogiad** - mae plant yn cael cyfleoedd ystyrlon i ddylanwadu ar benderfyniadau am eu bywydau;
- Atebolrwydd – mae awdurdodau ac unigolion yn atebol i blant am benderfyniadau, ac am ddeilliannau sy'n effeithio bywydau plant.

## 2.7 Plant yn Gyntaf

Plant yn Gyntaf yw'r enw a roddir i barthau plant yng Nghymru. Mae'n ffordd o weithio ar y cyd mewn lle penodol er budd plant a phobl ifanc.

Eu pwrpas yw galluogi'r gymuned leol a sefydliadau i weithio gyda'i gilydd i roi sylw i anghenion plant a phobl ifanc yn yr ardal ac i leihau'r anghydraddoldebau y mae rhai plant a phobl ifanc yn eu hwynebu o gymharu â'u cyfoedion mewn lleoedd sy'n fwy breintiedig yn gymdeithasol.

Mae Sir Gaerfyrddin yn un o bump ardal awdurdod lleol ar draws Cymru a dderbyniwyd yn ardal arloesi ar gyfer Plant yn Gyntaf.

Mae datblygu Plant yn Gyntaf ar waith yn ward Glanymôr a Thy-isa, Llanelli gan ei bod yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y sir.



*"Mae Sir Gaerfyrddin yn un o bump ardal awdurdod lleol ar draws Cymru a dderbyniwyd yn ardal arloesi ar gyfer Plant yn Gyntaf"*

## 2.8 Strategaeth Gorfforaethol Sir Gaerfyrddin 2018-2023.

Caiff cyfeiriad Llywodraeth Cymru ei ridyllu drwodd i gynlluniau a strategaethau lleol Sir Gaerfyrddin gan gynnwys **Strategaeth Gorfforaethol Sir Gaerfyrddin 2018-2023**.

Yn 2018 cyflwynodd Cyngor Sir Caerfyrddin ei brif ddyheadau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf - **'Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf'**.

Nododd y cynllun hwn nifer o brosiectau a rhaglenni allweddol y bydd y Cyngor yn ceisio eu cyflawni dros y bum mlynedd nesaf ac mae'n cynnwys yr angen i gyflawni llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol yn y Sir.

Mae'r cynllun yn cynnwys cydnabod yr angen i ymateb i ofynion chwarae a gofal plant ac i faterion allweddol sy'n cyfrannu at dlodi trwy raglenni ymyriad cynnar.

Wrth ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae **Strategaeth Gorfforaethol Sir Gaerfyrddin 2018-2023** yn amlinellu Amcanion Llesiant a blaenoriaethau Gwella Allweddol y Sir ac mae'n cynnwys y prosiectau a rhaglenni allweddol a amlinellir yn 'Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf'

Mae pymtheg Amcan Llesiant o fan benawdau Dechrau'n Dda, Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda ac Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus.

Strategaeth Gorfforaethol Sir Gaerfyrddin yw'r strategaeth gyffredinol ar gyfer plant a theuluoedd ac mae'n cydnabod fod angen inni roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a chefnogi eu datblygiad trwy blentyndod cynnar trwy gefnogi teuluoedd.

Ceir manylion ein perfformiad yn 2017/18 yn erbyn ein Hamcanion Llesiant yn yr Adroddiad Blynyddol.

***'Mae'n rhaid byw bywyd, gadewch i ni ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda, mewn amgylchedd iach, diogel a llewyrchus'***













### Amcanion Llesiant

**Dechrau'n Dda**

**1.** Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd.

**2.** Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw.

**3.** Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr.

**4.** Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant.

**Byw'n Dda**

**5.** Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi.

**6.** Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir.

**7.** Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael.

**8.** Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra).

**9.** Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel.

**Heneiddio'n Dda**

**10.** Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio.

**11.** Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin.

**Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus**

**12.** Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol.

**13.** Gwella isadeiledd a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth.

**14.** Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

**15.** Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau

## 2.9 Dyletswyddau Statudol

### Gwybodaeth, Gofal Plant a Chwarae

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol ym meysydd Gofal Plant, Gwybodaeth a Chwarae.

Mae **Deddf Gofal Plant 2006** yn rhoi dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i ofalu, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, fod gofal plant ar gael i alluogi rhieni neu ofalwyr i weithio neu i ddilyn cwrs addysg neu hyfforddiant yn arwain at waith.

Mae angen i awdurdodau lleol ofalu fod digon o ofal plant ar gyfer plant i fyny at y mis Medi wedi i'r plentyn droi'n 14 neu'r mis Medi wedi i'r plentyn droi'n 18 ar gyfer plant anabl.

Bob pum mlynedd cynhelir **Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Sir Gaerfyrddin** er mwyn adnabod bylchau o ran gofal plant a gwneud argymhellion i helpu diwallu'r angen am ofal plant.

Mae gofal plant yn un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu teuluoedd sy'n gweithio yng Nghymru. Mae cefnogi teuluoedd trwy ddarparu gofal plant o ansawdd, hyblyg a fforddiadwy yn cefnogi adfywiad economaidd a gall leddfu pwysau ar incwm teuluoedd a helpu rhieni i fynd i weithio.

Mae LlC wedi ymrwymo trwy'r **Cynnig Gofal Plant i Gymru** i ddarparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'i ariannu i rieni plant 3 a 4 oed sy'n gweithio, am 48 wythnos o'r flwyddyn. Bydd y Cynnig Gofal Plant yn cael ei gyflwyno i blant cymwys yn Sir Gaerfyrddin o fis Ionawr 2019.

### Chwarae

Mae chwarae yn rhan hanfodol o fywydau plant a phobl ifanc. Mae'n cyfrannu tuag at ddatblygiad personol a chymdeithasol plentyn a'u hiechyd corfforol a meddyliol.

Chwarae • Play

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn mynnu fod awdurdodau lleol yn asesu a sicrhau, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, digon o gyfleoedd chwarae i blant.

### Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD)

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
Family Information Service

Rhaid i bob Awdurdod Lleol sefydlu a chynnal Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD).

**Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd** Sir Gaerfyrddin yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cymorth a gwybodaeth leol ar gyfer teuluoedd, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.

Mae'n darparu cyngor ac arweiniad rhad ac am ddim ar ystod eang o faterion plant a theuluoedd gan gynnwys dewisiadau gofal plant, gofal iechyd, grwpiau cefnogi, addysg a hyfforddiant, gweithgareddau hamdden i blant a chyllid.



# 3 Gwasanaethau Cymorth I Deuluoedd

## Sut rydym yn Cefnogi Teuluoedd yn Sir Gaerfyrddin


Trefnir gwasanaethau plant a theuluoedd yn ôl lefelau gwahanol o angen ac maent yn amrywio o Gefnogaeth Gyffredinol i Gefnogaeth Warchodol.

Mae **Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (Cysur)** wedi cynhyrchu fframwaith **“Y Cymorth Iawn ar yr Adeg Iawn"** i esbonio pa wasanaethau sydd ar gael ar wahanol lefelau i helpu ymarferwyr i wneud atgyfeiriadau priodol ar gyfer plant a theuluoedd.

Yn ymarferol ceir peth hyblygrwydd rhwng y ffiniau, wrth i wasanaethau weithio ar draws lefelau a theuluoedd yn symud i mewn ac allan o’r lefelau gwahanol wrth i’w hanghenion newid.

Bydd anghenion y rhan fwyaf o blant yn cael eu diwallu gan eu teulu ac ar lefel gyffredinol. Bydd gan rai teuluoedd anghenion ychwanegol na all gwasanethau cyffredinol eu diwallu a bydd angen mwy o help arnynt. Bydd gan nifer llai anghenion cymhleth a bydd angen ystod ehangach o gefnogaeth arnynt.

Mae ymyriadau cynnar a gwaith ataliol yn digwydd ar draws y lefelau ac mae’n gweddu i’r hyn sydd ei angen ar deulu neu sefyllfa unigol.



## Gwasanaethau Anstatudol

### Cefnogaeth Gyffredinol

**Plant, pobl ifanc a theuluoedd gyda'u hanghenion gan wasanaethau cyffredinol.**

Mae'r rhain yn cynnwys canolfannau hamdden, parciau, llyfrgelloedd, gwasanaethau heddlu, ysgolion a meithrinfeydd ynghyd â gwasanaethau iechyd a ddarperir gan feddygon teulu, deintyddion, bydwragedd, nyrsys ysgol ac ymwelwyr iechyd.

Yn aml Gwasanaethau Cyffredinol yw'r cyswllt cyntaf gyda phlentyn a chwaraeant rôl hollbwysig yn cefnogi plant, teuluoedd a phobl ifanc. Maent yn borth i wasanaethau eraill a gallant helpu atal unrhyw anawsterau rhag mynd yn waeth. Fel arfer eir i'r afael ag anghenion yn y cam cynnar hwn.  Pan na ellir eu datrys, rhoddir systemau ar waith i fynd i'r afael â'r anghenion hynny.

### Cefnogaeth Ychwanegol

**Gwasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd sydd ag anghenion ychwanegol ac efallai angen cefnogaeth gynnar.**

Mae'r rhain yn wasanaethau wedi'u targedu ar gyfer plant a theuluoedd sy'n dechrau profi anawsterau neu sydd mewn perygl o wneud hynny. Maent yn cefnogi teuluoedd all fod angen ychydig o gymorth ychwanegol e.e. trwy raglenni magu plant, canolfannau teuluoedd, cymorth tai, gwasanaethau anabledd, eiriolaeth neu waith ieuenctid mewn ysgolion. Efallai hefyd y defnyddir gwasanaethau wedi'u targedu gan blant a phobl ifanc a chanddynt un angen unigol megis materion iechyd.

### Cefnogaeth wedi'i Thargedu

**Gwasanaethau ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd sy' n profi trafferthion ac angen ymateb cydgysylltiedig wedi'u dargedau.**

Mae'r gwasanaethau hyn yn canolbwyntio ar blant, pobl ifanc a theuluoedd a chanddynt anghenion lluosog.

Mae gwasanaethau yn cynnwys cymorth dwys i deuluoedd, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol i blant a'r glasoed, arweinwyr diogelu arbenigol, llety diogel a gwasanaethau i blant ag anableddau. Yn aml bydd gan deuluoedd Weithiwr Teulu Allweddol fydd yn cynnull at ei gilydd ymarferwyr o wasanaethau gwahanol sy'n gweithio gyda'i gilydd i gydlynu cefnogaeth.

## Gwasanaethau Statudol: Gwasanaethau Plant


### Asesiadau ar gyfer Gofal a Chefnogaeth


Gwasanaethau Cefnogaeth ac Ataliol arbenigol ar gyfer teuluoedd a phlant sydd angen Asesiad Gofal a Chefnogaeth ac all fod angen Cynllun.

### Cefnogaeth Warchodol

Gwasanaethau i blant, pobl ifanc sydd angen eu gwarchod gweithredu, amddiffynnol neu angen ddiogelu ar frys.

**Mae pedair prif raglen Llywodraeth Cymru yn darparu cefnogaeth anstatudol i deuluoedd: Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, rhaglenni Gwaddol Cymunedau yn Gyntaf a Chefnogi Pobl.**



## Teuluoedd yn Gyntaf

**Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn brosiect ymyriad cynnar sy'n cynnig arweiniad a chefnogaeth i deuluoedd â phlant 0-25 oed. Mae'r rhaglen yn ceisio helpu teuluoedd i ddod yn hyderus, meithringar a chydnerth.**

**Trwy Teuluoedd yn Gyntaf:**

- Mae Gweithredu dros Blant yn darparu rhaglenni magu plant seiliedig ar dystiolaeth a chefnogaeth magu plant i deuluoedd. Maent yn cynnig offerynnau, sgiliau a gwybodaeth ymarferol i gefnogi a thywys rhieni ynghyd â chymorth therapiwtig a therapi chwarae ar gyfer teuluoedd ag anghenion cymhleth.
- Mae gwirfoddolwyr Home-Start yn helpu teuluoedd gyda defodau a ffiniau plant, chwarae, darllen, gwaith cartref, cyllidebu ac arian.
- Mae Domestic Abuse Stops Here (DASH) yn cefnogi plant a phobl ifanc a effeithiwyd gan gamdrin domestig.
- Mae Gweithwyr Ymgysylltu Teuluol Awdurdodau Lleol yn helpu gyda mynd i'r ysgol yn rheolaidd a phrydlon ac mae Gweithwyr Cefnogi Teuluoedd yn cynnig cymorth dwys i deuluoedd bregus ag anghenion cymhleth i helpu gyda pherthnasoedd teuluol anodd.
- Mae Canolfannau Teuluoedd Plant Dewi yn cynnig cyfleoedd i deuluoedd â phlant rhwng 0-11 oed i gymdeithasu, adeiladu rhwydeithiau cymorth a dysgu sgiliau newydd.
- Mae Canolfannau Plant Integredig yn darparu clybiau chwarae ar ôl ysgol, bwyta'n iach, coginio ar gyllideb a chyrsiau magu plant.
- Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cefnogi plant a phobl ifanc bregus 10 - 18 oed i helpu adeiladu cydnerthedd a datblygu sgiliau i fyw, dysgu a chyflawni. Mae cymorth Gwaith Ieuenctid ôl 16 yn cefnogi pobl ifanc 16-25 oed ac yn hyrwyddo cyfleoedd addysg, gwaith, hyfforddiant a gwirfoddoli.
- Mae'r Tîm Iechyd Ieuenctid yn cynnig cymorth iechyd ac iechyd meddwl arbenigol ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd a chanddynt anghenion iechyd penodol.
- Mae'r Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc yn cefnogi pobl ifanc sy'n gofalu am riant (neu frawd neu chwaer) oherwydd salwch, anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau.
- Mae'r Tim Camau Bach yn cefnogi rhieni a chanddynt blentyn anabl 0-16 oed i reoli anghenion eu plentyn yn ogystal â chynnig magu plant trwy grwpiau, cefnogaeth yn y cartref ar gyfer pobl ifanc 10-16 oed a chanddynt awtistiaeth gweithredu lefel uchel, Syndrom Asperger, ADHD neu anawsterau cyfathrebu cymdeithasol.

## Tîm o Amgylch y Teulu (TAT)

**Mae Tîm o Amgylch y Teulu (TAT) yn elfen ganolog o Teuluoedd yn Gyntaf.**

**Mae TAT yn ffordd gydweithredol o weithio sy'n dod â nifer o asiantaethau at ei gilydd i gyflawni cynllun cefnogi a gwella deilliannau i deulu, plentyn neu berson ifanc.**

Mae'r **Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF)** yn offeryn asesu a ddefnyddir gyda theuluoedd i adnabod eu cryfderau a chynllunio beth ddylai ddigwydd i helpu teuluoedd i ddiwallu'r anghenion a nodwyd.

Os oes angen cefnogaeth aml-asiantaethol caiff Gweithiwr Allweddol TAT ei ddewis i gymryd y rôl arweiniol yn gweithio gyda theuluoedd i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cydlynu a'u bod yn diwallu anghenion y teulu.

Ar hyn o bryd, defnyddir JAFF yn bennaf ar draws Teuluoedd yn Gyntaf. I'r dyfodol, bydd rhaglenni eraill yn cael eu hannog i gyfrannu i'r TAT ac i ysgwyddo'r rôl gweithiwr allweddol.

# Dechrau'n Deg Sir Gaerfyrddin

**Mae'r ychydig flynyddoedd cyntaf ym mywydau plant yn dylanwadu ar ba mor dda maen nhw'n gwneud yn yr ysgol, eu hiechyd a llesiant i'r dyfodol a'r hyn maen nhw'n ei gyflawni yn ddiweddarach yn eu bywydau. Mae Dechrau'n Deg yn canolbwyntio ar adnabod anghenion yn gynnar ac mae'n sicrhau bod pob plentyn yn datblygu eu sgiliau iaith cymdeithasol a'u bod yn barod yn emosiynol a chorfforol i ddechrau yn yr ysgol.**

Ar hyn o bryd mae Dechrau'n Deg yn gweithredu mewn 18 ardal yn Sir Gaerfyrddin. Yr ardaloedd hynny yw:

Tref Rhydaman, y Betws, Pantyffynnon, Garnant, Glanaman, Bigyn, Felin-foel, y Morfa, Lakefield, Dafen, Llwynhendy, Carwe, y Pwll, Trimsaran, Porth Tywyn, Pen-bre, Waun Dew a Gogledd Tref Caerfyrddin.

Gweithredir trefn gymhwysedd bendant yn seiliedig ar godau post yn yr ardaloedd hyn i sicrhau bod y cymunedau mwyaf difreintiedig yn derbyn gwasanaethau.

Mae **pedair prif elfen** y mae Dechrau'n Deg yn eu darparu i deuluoedd â phlant 0-3 oed.

- Gofal plant o ansawdd, rhan amser, rhad ac am ddim i blant 2-3 oed am ddwy awr a hanner y dydd, o ddydd Llun i ddydd Gwener, am 42 wythnos o'r flwyddyn trwy feithrinfeydd dydd preifat, gwirfoddol ac awdurdod lleol.
- Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd Uwch sy'n cefnogi teuluoedd o'r cyfnod cyn-geni ymlaen.
- Rhaglenni Rhianta i helpu datblygu sgiliau i fagu plant yn effeithiol.
- Gweithgareddau Datblygu Iaith megis iaith a chwarae a rhifau a chwarae i annog rhieni i ryngweithio, siarad, canu caneuon, chwarae a mwynhau gweithgareddau crefft gyda'u plant.





# Cymunedau am Waith, Cymunedau am Waith a Mwy, Gwaddol a Chyfuno

**Wedi i Cymunedau yn Gyntaf ddod i ben yn 2017, sefydlwyd pedair rhaglen newydd i gefnogi unigolion ar draws Sir Gaerfyrddin i wella eu ffyniant, dysgu ac iechyd**

Wedi i Cymunedau yn Gyntaf ddod i ben yn 2017, sefydlwyd pedair rhaglen newydd i gefnogi unigolion ar draws Sir Gaerfyrddin i wella eu ffyniant, dysgu ac iechyd.

Cyflogadwyedd yw'r brif flaenoriaeth ar draws yr holl raglenni i drechu tlodi a chryfhau cydnerthedd cymunedol. Bydd cynnig cymorth cyflogadwyedd i unigolyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr uned deuluol gyfan, a bydd y deilliannau yn ymestyn i blant a phobl ifanc o fewn yr aelwyd.

Bydd y rhaglenni yn canolbwyntio ar gefnogi oedolion sydd bellaf oddi wrth y farchnad waith i mewn i gyflogaeth ac ar leihau nifer y bobl ifanc 16 – 24 oed nad ydynt yn derbyn addysg trwy eu helpu gyda sgiliau sylfaenol, cymorth gyda hyfforddiant galwedigaethol, sesiynau blasu gwaith a lleoliadau.

Cynlluniwyd prosiectau ar gyfer iechyd, ffyniant, dysgu ac ymglymiad cymunedol er mwyn:

- **Lleihau anghydraddoldebau iechyd trwy annog ffyrdd o fyw cadarnhaol**
  Un o'r prif rwystrau sy'n atal unigolion rhag cael gwaith yw iechyd a llesiant gwael. Fe fydd cyfleoedd i unigolion gymryd rhan mewn mentrau llesiant wedi'u trefnu. Bydd lefelau'r gefnogaeth a ddarperir yn amrywio a byddant yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn.

- **Creu mwy o gyfleoedd i unigolion wella eu sgiliau a'u galluogi i fanteisio ar gyfleoedd i gael gwaith.**
  Cyfleoedd i unigolion fanteisio ar raglenni hyfforddiant trwy gael gwared â'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael hyfforddiant megis cost, gofal plant a chludiant.

- **Creu cyfleoedd i unigolion ymgysylltu trwy eu hymrymuso a thrwy fod yn rhan o'u cymunedau**
  Bydd ymgysylltu â grwpiau ac unigolion anodd eu cyrraedd yn flaenoriaeth uchel. Fe fydd prosiectau penodol yn cael eu trefnu i annog ac ymrymuso unigolion i chwarae rhan weithredol yn y rhaglen.

- **Creu cyfleoedd trwy ddiwylliant - Cyfuno:**
  Cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth sy'n hyrwyddo cyflogadwyedd a sgiliau, meithrin hyder, gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol a chefnogi'r blynyddoedd cynnar trwy raglenni llythrennedd a dysgu i'r teulu.



*"Cyfleoedd i unigolion fanteisio ar raglenni hyfforddiant trwy gael gwared â'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael hyfforddiant megis cost, gofal plant a chludiant"*

cefnogipobl
supportingpeople
supporting independence
cefnogi annibyniaeth

# Cefnogi Pobl

**Mae rhaglen Cefnogi Pobl yn darparu cymorth ym maes tai i bobl fregus dros 16 oed sydd mewn perygl o fynd yn ddigartref, sy'n dianc rhag trais domestig, sydd ag anghenion iechyd meddwl, materion camddefnyddio sylweddau neu anableddau dysgu i'w helpu i fyw mor annibynnol ag y bo modd.**

Mae'r gwasanaethau yn cynnwys help i:

- fyw adref – cyngor ar reoli cyllidebau personol, cynnal rhwydweithiau cefnogaeth a rheoli perthnasoedd gyda chymdogion;
- atal problemau rhag datblygu neu gynnig cymorth mor gynnar ag y bo modd i leihau'r galw ar wasanaethau eraill megis iechyd a gwasanaethau cymdeithasol;
- atal problemau rhag datblygu neu gynnig cymorth mor gynnar ag y bo modd i leihau'r galw ar wasanaethau eraill megis iechyd a gwasanaethau cymdeithasol;
- ategu'r gofal personol neu feddygol sydd ei angen ar rai pobl;
- cynnal annibyniaeth trwy gefnogaeth i ddatblygu sgiliau i fyw'n annibynnol, gwella hyder a sgiliau a galluogi pobl i ymgysylltu â rhaglenni eraill er mwyn manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant a gwaith.





# Gwasanaethau Plant Statudol

**Mae Gwasanaethau Plant Statudol yn gyfrifol am gefnogi a diogelu plant a theuluoedd bregus sydd wedi croesi'r trothwy statudol oherwydd bod ganddynt anghenion ychwanegol sydd y tu hwnt i'r hyn y gall y gwasanaethau iechyd, addysg neu gymunedol helpu â nhw.**

Mae Gwasanaethau Plant Statudol yn gyfrifol am gefnogi a diogelu plant a theuluoedd bregus sydd wedi croesi'r trothwy statudol oherwydd bod ganddynt anghenion ychwanegol sydd y tu hwnt i'r hyn y gall y gwasanaethau iechyd, addysg neu gymunedol helpu â nhw.

Mae gan Wasanaethau Plant ddyletswydd i ddiogelu plant all fod mewn perygl o ddioddef niwed, boed gan aelodau'r teulu neu eraill ac i hyrwyddo lles plant a phobl ifanc.

Mae **Tîm Atgyfeirio Canolog (TAC)** yn gwasanaethu Sir Gaerfyrddin gyfan a nhw fel arfer yw'r pwynt mynediad at wasanaethau sy'n cefnogi a diogelu plant a phobl ifanc bregus.

Mae unrhyw bryderon diogelu am blentyn neu deulu yn cael eu cyfeirio at y TAC. Yn dilyn atgyfeiriad bydd y TAC yn cysylltu â rhiant neu warcheidwad i gael eu caniatâd i siarad ag asiantaethau eraill megis ysgolion neu wasanaethau ieuenctid, fel y gallant gasglu digon o wybodaeth i benderfynu a oes angen cefnogaeth ar y teulu ai peidio, a allai mudiad anstatudol neu wirfoddol ddarparu'r gefnogaeth neu a oes angen Asesiad ar gyfer Gofal a Chefnogaeth arnynt.

Ein nod bob tro yw galluogi'r teulu i weithredu heb ymyriad statudol fel y byddant yn cael eu hannog a'u cefnogi i weithio gyda gwasanaethau anstatudol.



## Asesiad ar gyfer Gofal a Chefnogaeth

Os oes angen gall y Tîm Atgyfeirio Canolog wneud atgyfeiriad i'r Tîm Asesu i gael 'Asesiad ar gyfer Gofal a Chefnogaeth'. Bydd y Tîm Asesu yn ystyried anghenion gofal a chefnogaeth plentyn, person ifanc, neu deulu a bydd yn ymchwilio lle bo pryderon am ddiogelwch plentyn.

Yn dilyn yr asesiad gwneir penderfyniad am lefel y risg a'r camau sydd eu hangen. Gallai hynny gynnwys cyfeirio pobl at wasanaeth perthnasol a nodi camau diogelu o fewn y teulu. Efallai na chymerir unrhyw gamau pellach os na chafodd y plentyn ei niweidio ac os na chredir ei fod/bod mewn perygl o gael ei niweidio.

Os yw'r Asesiad ar gyfer Gofal a Chefnogaeth yn nodi anghenion o ran cefnogaeth, gall Tîm Gofal Plant ymwneud â hyn. Mae'r Tîm Gofal Plant yn gweithio gyda'r teulu a'r asiantaethau partner i roi cynllun ar waith i ddiwallu anghenion y plentyn.

Cynhelir cynhadledd achos os yw'r plentyn mewn perygl o gael niwed sylweddol. Yn y gynhadledd achos, gall gweithwyr proffesiynol perthnasol weithio gyda'r teulu, rhannu gwybodaeth, nodi risgiau, nodi cryfderau ac amlinellu'r hyn y mae angen ei wneud i amddiffyn y plentyn.

Os bydd gweithwyr proffesiynol yn y gynhadledd achos gychwynnol yn penderfynu bod plentyn mewn perygl o gael niwed sylweddol, byddant yn ychwanegu'r plentyn at y gofrestr amddiffyn plant, ac yn llunio cynllun amddiffyn plentyn.

Bydd cynadleddau achos yn parhau i gael eu cynnal yn rheolaidd hyd nes nad ystyrir bod y plentyn mewn perygl o gael niwed sylweddol mwyach neu hyd nes y caiff ei gymryd i ofal.

## Cefnogi Teuluoedd o fewn Gwasanaethau Statudol

Mae nifer o wasanaethau yn cefnogi teuluoedd o fewn gwasanaethau statudol gan gynnwys:

**Tîm Ar Ffiniau Gofal**

Defnyddir 'Ar Ffiniau Gofal' i ddisgrifio plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o fynd yn blant mewn gofal. Gall 'Ar Ffiniau Gofal' hefyd gynnwys plant a phobl ifanc sy'n dychwelyd adref ar ôl bod mewn gofal.

Mae'r Tîm Ar Ffiniau Gofal yn darparu cefnogaeth ddwys i deuluoedd bregus a chanddynt nifer fawr o broblemau cymhleth er mwyn dod o hyd i ffyrdd o atal plentyn neu blant rhag cael eu rhoi mewn gofal. Eu nod yw cefnogi teuluoedd i roi sylw i'w problemau a gwneud newidiadau cadarnhaol all leihau unrhyw beryglon a helpu eu plant i barhau i fyw'n ddiogel yn y cartref teuluol.

**Tîm Cefnogi Teuluoedd Integredig**

Mae'r tîm yn gweithio gyda phlant a theuluoedd y mae eu bywydau'n cael eu heffeithio gan rieni yn camddefnyddio cyffuriau neu alcohol. Mae'r Tîm Cefnogi Teuluoedd Integredig yn dîm aml-asiantaethol ac mae ganddynt bartneriaid ym meysydd iechyd, addysg a throseddau ieuenctid sy'n darparu cefnogaeth ddwys i deuluoedd bregus lle y mae'r plentyn mewn perygl o ddioddef niwed i helpu cadw teuluoedd gyda'i gilydd ac yn ddiogel yn ystod cyfnodau anodd yn eu bywydau.

**Tîm Ymyriadau Teuluol**

Mae'r tîm hwn yn rhoi cefnogaeth ddwys i rieni ym mhob agwedd ar fagu plant, o'u genedigaeth nes eu bod yn oedolion. Nod y tîm yw lleihau'r risgiau i blant a phobl ifanc ledled Sir Gaerfyrddin a gwella eu canlyniadau.

Mae'r Tîm Ymyriadau Teuluol yn darparu gwasanaeth o safon mewn achosion cymhleth, gan weithio ochr yn ochr â'r Timau Asesu a rheoli achosion sydd bellach wedi'u trosglwyddo gan y gwasanaethau statudol. Mae'n hybu cydnerthedd a ffactorau amddiffynnol i leihau'r angen am ymyrraeth statudol barhaus.

**Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau**

Mae'n darparu cefnogaeth ar draws y gwasanaethau plant ac oedolion, gan weithio gyda phlant ac aelodau'r teulu sy'n cael eu heffeithio gan eu defnydd eu hunain neu rywun arall o gyffuriau neu alcohol, i sicrhau bod plant yn derbyn y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt ac i rwystro'r angen i'w rhoi mewn gofal.

## Cefnogaeth Warchodol

**Gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd angen gwarchodaeth, gweithredu gwarchodol neu y mae angen taer eu diogelu**

Os yw plentyn mewn perygl ar y pryd bydd y Gwasanaethau Plant yn ceisio dod o hyd i ateb. Gall yr awdurdod lleol, drwy'r llys, gael gorchymyn amddiffyn brys er mwyn mynd â'r plentyn yn syth i le diogel, gorchymyn gwahardd er mwyn symud y camdriniwr o'r cartref teuluol neu orchymyn asesu plentyn er mwyn asesu anghenion y plentyn heb gael cydsyniad y rhieni neu'r gofalwyr. Hefyd, gall yr heddlu fynd â phlentyn i le diogel am hyd at 72 awr heb gael gorchymyn llys.

# 4 Cyflawni Ar Gyfer Teuluoedd

## Sut fyddwn yn cyrraedd ein nodau

### 4.1 Cynnydd hyd yn hyn

Yn 2017 sefydlodd Sir Gaerfyrddin Grŵp Alinio yn cynnwys cynrychiolaeth o Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cefnogi Pobl a rhaglenni Gwaddol Cymunedau yn Gyntaf.

Mae'r Grŵp Alinio yn gyfrifol am fonitro a chytuno meysydd blaenoriaeth ar gyfer datblygiadau ac ymrwymiadau ar y cyd a'r defnydd o gyllidebau i gefnogi'r gwaith hwn.

Nid yw dod â rhaglenni'n agosach at ei gilydd yn fater syml bob tro - mae gan bob un ei gofynion, blaenoriaethau a gofynion grant ei hun. Er hynny, dros y flwyddyn ddiwethaf rydym gyda'n gilydd wedi gweithredu fel a ganlyn:

- Ariannodd cyllid gan Cefnogi Pobl swydd Cydlynydd y Tîm o Amgylch y Teulu (Tai).
- Derbyniodd pedwar prosiect Teuluoedd yn Gyntaf arian ychwanegol i ddarparu cefnogaeth ym maes tai.
- Cafodd trefniadau trosglwyddo ar gyfer cefnogi teuluoedd rhwng Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf / TAT eu mireinio.
- Cafodd £14k ei drosglwyddo o Cefnogi Pobl er mwyn darparu gwasanaethau Cymorth Anabledd Teuluoedd yn Gyntaf.
- Gwefan newydd i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) yn cynnwys gwybodaeth am yr holl raglenni Trechu Tlodi a DVDs a ddatblygwyd ar gyfer y GGD, Chwarae, Gofal Plant, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg.
- Cafodd 35 ymarferydd hyfforddiant rhianta ychwanegol i ddatblygu'r gweithlu rhianta yn Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.
- Contractau ar y cyd rhwng Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg ar gyfer gwasanaethau mewn Canolfannau Teuluoedd a Chanolfannau Plant Integredig.

### 4.2 Cyfeiriad i'r Dyfodol

Er bod gan Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cronfeydd Gwaddol Cymunedau yn Gyntaf a Cefnogi Pobl eu ffocws unigol eu hunain, mae ganddynt oll gryn dipyn yn gyffredin gan eu bod yn ceisio annog ymyriad cynnar, darparu cefnogaeth a gwneud unigolion a chymunedau yn fwy cydnerth.

Mae LlC yn awyddus i annog mwy o aliniad ac mae'n disgwyl i awdurdodau lleol allu gweithio'n wahanol, a chael mwy o gyfle i lunio gwasanaethau sy'n cefnogi ffyrdd ataliol, hirdymor o weithio a lleihau biwrocratiaeth ddi-angen.

Mae Sir Gaerfyrddin yn un o bymtheg awdurdod lleol sydd â hyblygrwydd ychwanegol o 15% ar draws rhaglenni fel rhan o brosiect Ariannu Hyblyg LlC. Golygodd hynny fod gennym y gallu i drosglwyddo arian mewn ffordd reoledig rhwng Cefnogi Pobl, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chronfa Gwaddol Cymunedau yn Gyntaf er mwyn cynllunio'n fwy strategol, alinio rhaglenni a darparu gwasanaethau mwy ymatebol i ddiwallu anghenion eu pobl.

O 1 Ebrill 2019 bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu dau grant newydd:

- Grant Plant a Chymunedau
- Grant Cymorth Tai
- Bydd y Grant Plant a Chymunedau yn cynnull at ei gilydd saith ffrwd grant o dan un grant, yn cynnwys:
- Dechrau'n Deg
- Teuluoedd yn Gyntaf
- Y Gronfa Waddol
- Cymunedau am Waith a Mwy
- Gofal Plant a Chwarae, Hyrwyddo Ymgysylltu Cadarnhaol i Bobl Ifanc
- Chronfa Dydd Gŵyl Ddewi.

Bydd Cefnogi Pobl yn dod o fewn y Grant Cymorth Tai.

Mae LlC wedi gosod disgwyliadau pendant y dylai'r ddau grant weithio'n ddiwnïad, gan ddarparu gwasanaethau integredig lle'n briodol. Er mwyn sicrhau ein bod yn gweithio tuag at wella deilliannau i bob plentyn, teulu a pherson bregus, bydd un Fframwaith Deilliannau'n cael ei ddatblygu gydag awdurdodau lleol yn rhan o fwriad LlC fod darparwyr yn cyd-gynhyrchu.

Yn Sir Gaerfyrddin gwelsom eisoes fanteision gweithio'n agosach gyda phartner raglenni ac rydym wedi ymrwymo i barhau i alinio ein gwaith er budd teuluoedd a chymunedau.

## 4.3 Blaenoriethau a Rennir

Gan adeiladu ar waith blaenorol, bydd y Grŵp Alinio yn canolbwyntio ar bum maes ffocws. Cynhyrchir cynllun gweithredu bob blwyddyn i fonitro ein cynnydd ac fe'i cyhoeddir yn ddogfen ar wahân.

**MAES FFOCWS 1: Asesiad Seiliedig ar Gryfderau, Cydweithio a Chynllunio Clyfrach**
Byddwn yn defnyddio asesiad anghenion cyffredin a rennir yn sail ar gyfer cynllunio ar y cyd a datblygu gwasanaethau ac yn chwilio am gyfleoedd i gomisiynu ar y cyd.

Cafodd tri maes blaenoriaeth cyffredin eu hadnabod ar gyfer eu datblygu:

- Rhianta
- Incwm, Tai a Chyflogaeth
- Iechyd a Llesiant Emosiynol.

Byddwn yn datblygu ein gwaith yn y meysydd hyn gan ddefnyddio'r dull mwyaf priodol e.e. ymgynghori â chymunedau, gweithgor, fforymau gwasanaethau ac ati i wella ein cynllunio gweithredol er mwyn ymateb i anghenion ac arwain cydweithio a chaffael ar y cyd.

**MAES FFOCWS: 2 Gwybodaeth**
Byddwn yn parhau i ofalu fod gwybodaeth ar gael trwy un pwynt canolog ac yn mynd ati o ddifrif i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod gwybodaeth ar gael trwy un pwynt canolog, gan hyrwyddo'r defnydd o DEWIS a'r GGD.

Byddwn yn datblygu'r GGD yn bwynt cyswllt canolog ar gyfer gwybodaeth am wasanaethau ataliol, rhoi cyngor a chymorth i bobl a gweithwyr proffesiynol.

Byddwn yn edrych ar y potensial o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a negeseuon testun SMS er mwyn hyrwyddo negeseuon cadarnhaol.

**MAES FFOCWS 3: Datblygu'r Gweithlu**
Byddwn yn gweithio ar draws y gwahanol wasanaethau i ddatblygu cyfleoedd hyfforddiant cymysg, ar y cyd ac yn ceisio sefydlu gweithlu 'cyffredin'.

Byddwn yn datblygu'r gweithlu ymhellach i weithio mewn ffordd fwy cydlynol er mwyn osgoi dyblygu, gan ddefnyddio ymagwedd TAT.

Byddwn yn gweithio ar draws yr ystod o wasanaethau i ddatblygu modelau cymysgedd sgiliau ymhellach, fframwaith cymwyseddau craidd, cyfleoedd hyfforddiant ar y cyd ac yn edrych ar gyfleoedd ar gyfer caffael ar y cyd.

**MAES FFOCWS 4: Llwybrau Atgyfeirio a Llwybrau rhwng Prosiectau**
Byddwn yn cymryd cyfrifoldeb ar y cyd am adolygu llwybrau ac atgyfeiriadau rhwng gwasanaethau i sicrhau bod plant, teuluoedd a phobl ifanc yn derbyn cefnogaeth amserol, briodol a chydlynus.

Byddwn yn defnyddio fframwaith Cysur ac yn cymryd cyd gyfrifoldeb am drefniadau i dderbyn gwasanaethau ac yn gweithio o ddifrif i ddatblygu llwybrau system gyfan clir a hygyrch.

Byddwn yn cynnig hyfforddiant i sicrhau bod timau ehangach yn ymwybodol o lwybrau atgyfeirio ei gilydd ac i hyrwyddo ein cyfrifoldeb unigol ac ar y cyd am brofiad teulu neu berson ifanc o dderbyn cefnogaeth.

**MAES FFOCWS 5: Ymgysylltu a Chyfranogiad**
Byddwn yn chwilio am gyfleoedd a ffyrdd blaengar o ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau i sicrhau eu bod yn cael gwrandawiad, eu trin â pharch a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod.



# 5 Arweinyddiaeth, Llywodraethu ac Atebolrwydd

Mae gan bob rhaglen ei phrosesau rheoli a monitro perfformiad trylwyr ei hun. Mae pob un yn gyfrifol am gyflwyno adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru ar unrhyw ddeilliannau allweddol.

O fewn yr Awdurdod Lleol bydd y Grŵp Alinio yn bwydo'n uniongyrchol i'r Tîm Rheoli Adrannol. Mae pob rhaglen hefyd yn datblygu cynllun busnes yn cynnwys amcanion gwella sy'n bwydo i'r System Monitro Gwybodaeth Perfformiad fewnol. Caiff hwn ei fonitro a'i adrodd yn chwarterol i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Pwyllgor Craffu a'r Bwrdd Gweithredol er mwyn adrodd ar ein cynnydd. Os oes unrhyw beth nad yw'n mynd yn dda neu sydd ddim yn cyrraedd ein targedau mae'n rhaid inni gyfiawnhau hynny a darparu rhesymau a pha gamau cywirol y byddwn yn eu cymryd.

Ar ddiwedd y flwyddyn rydym yn adrodd ar ein cynnydd yn ystod y flwyddyn yn adroddiad blynyddol y Cyngor. Mae'n edrych ar ein cynnydd yn erbyn ein cynlluniau am y flwyddyn ac yn rhoi gwybod i'r cyhoedd sut rydym yn perfformio ac am yr heriau a wynebwn. Fe'i cyhoeddir yn yr Hydref bob blwyddyn.

Yn ogystal, byddwn yn datblygu cynllun gweithredu blynyddol i gyd-fynd â'r strategaeth hon. Caiff ei gyhoeddi ar-lein er mwyn tynnu sylw at y ffordd yr ydym yn bwrw ymlaen â'n gwaith.



